RHIFYN
ISSUE
09
20.06.19

Llais Llantrisant

GWISG YSGOL
SCHOOL UNIFORM





Sylwyd yn ddiweddar fod safonau'r wisg ysgol yn dirywio'n raddol o ran y wisg ei hun ac esgidiau ysgol. Deallwn yn iawn fod plant yn tyfu mas o'u gwisgoedd yn gyflym iawn a nid oes disgwyl i bobl brynu gwisg newydd mor hwyr yn y flwyddyn. Fodd bynnag, hoffai'r ysgol atgoffa pawb fod gennym wisg ysgol swyddogol yn ogystal â gwisg ysgol ar gyfer diwrnodau Addysg Gorfforol yn unig. Gellir weld y wisg ysgol, a'i phrynu, trwy glicio ar y logo isod.

It has been noticed recently that the standard of school uniform has gradually deteriorated in regards to clothing and footwear. We completely understand that children quickly grow out of their clothes and there is no expectation to purchase new uniform so late in the school year. However, we should like to remind everyone that we have an official formal school uniform and a casual, sports uniform for PE days only. The school uniform can be seen, and purchased, by clicking on the logo below.

Leonard Hudson
TEAMWEAR



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

27.06.19 - Sioe'r plant Meithrin (2:00yp/pm)
Nursery children's show(2:00yp/pm)
28.06.19 - Sioe'r plant Derbyn (2:00yp/pm)
Reception children's show(2:00yp/pm)
03/04.07.19 - Sioe Bl. 1 a 2 (2:00yp/pm)
Year 1 and 2 show(2:00yp/pm)
16/17/18.07.19 - Sioe CA2 (1:00yp/pm)
KS2 show(1:00yp/pm)
19.07.19 - Diwrnod olaf y flwyddyn
Last day of the year

EISTEDDFOD YR URDD 2019
URDD EISTEDDFOD 2019

Eisteddfod yr Urdd
Caerdydd a'r Fro
27/05 – 01/06/2019





Cawsom ddau ddiwrnod hwylus iawn o gystadlu ym Mae Caerdydd yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Yn anffodus, ni chafwyd llwyddiant yn un o'r 5 cystadleuaeth ond y peth pwysicaf oedd bod y plant wedi mwynhau'r profiad ac wedi perfformio'n arbennig o dda yn y rhagbrofion. Diolch yn fawr iawn i'r holl blant a fu'n cystadlu yn y Bae, i'n holl gefnogwyr ac i'r staff am weithio mor galed gyda'r plant. #Cam ☹

We had 2 great days of competing in Cardiff Bay during Whitsun half term holidays. Unfortunately, we didn't win in the 5 events we were competing in but the most important thing is that the children thoroughly enjoyed the experience and performed very well in the prelims. A big thank you to all the children who competed in the Bay, to all our supporters and to the staff for working so hard with the children. #Robbed ☹





the giant wiggle
actionforchildren.org.uk



Diolch yn fawr iawn i bawb yn y Cyfnod Sylfaen am eu cyfraniadau hael tuag at elusen 'Action for Children' yn ddiweddar. Codwyd £168 . Arbennig! (Bwrwch olwg ar ragor o luniau yma).

Many thanks to everyone in the Foundation Phase for their generous contributions towards the charity, 'Action for Children'. We managed to raise £168. Great! (More photos here).







LLUNIAU GRŴP
GROUP PHOTOS

Bydd ffotograffydd yr ysgol yn dychwelyd i'r ysgol ar 24.06.19 i dynnu lluniau'r timoedd chwaraeon a Chôr yr Ysgol. Felly, gofynnir i aelodau'r Côr wisgo gwisg ysgol ffurfiol ddydd Llun y 24ain os gwelwch yn dda.

The school photographer will return to school on 24.06.19 to photograph the sports teams and the School Choir. So, we kindly ask the Choir members to wear official school uniform on Monday the 24th, please.



Y GRhA
THE PTA

Ydych chi wedi archebu'ch tocynnau ar gyfer Dawns Haf y GRhA? Noson hyfryd yn Ngwesty'r Radisson Blu, Caerdydd. Bwrwch olwg dros y llythyr ar dudalen y GRhA ar wefan yr ysgol.

Have you purchased your tickets for the PTA's Summer Ball? A great evening in the Radisson Blu Hotel, Cardiff. Have a look at the letter on the PTA's page of the school website.


YGGG Llantrisant CRhA/PTA
DAWNS HAF
Radisson BLU HOTEL CARDIFF
Nos Sadwrn 13eg o Orffennaf 2019

Dawns Haf/Summer Ball – Nos Sadwrn, Gorffennaf y 13eg 2019


YGGG Llantrisant CRhA/PTA
SUMMER BALL
Radisson BLU HOTEL CARDIFF
Saturday 13th July 2019

Dawns Haf/Summer Ball – Saturday 13th July 2019

Cofiwch ymweld â / *Visit us*: www.ygggllantrisant.cymru

PEN-BLWYDD SALI MALI YN 50
HAPPY 50TH BIRTHDAY SALI MALI



Ddydd Mercher, Mehefin 19eg, cafodd plant y Cyfnod Sylfaen hwyl a sbri wrth iddynt ddathlu pen-blwydd Sali Mali yn 50! Cynhaliwyd partion a gweithgareddau ym mhob dosbarth gyda'r lliw oren fel thema!

Wednesday, June 19th, the Foundation Phase children had lots of fun as they celebrated Sali Mali's 50th birthday! All classes held parties and took part in activities with an orange theme!















RHAGLEN DELEDU ~ AHOI!
AHOI! ~ TV PROGRAMME

Ar ddydd Gwener, Mai 24ain teithiodd criw o blant i Gaerdydd i ffilmio'r rhaglen deledu 'Ahoi' a fydd yn cael ei darlledu fis Medi eleni. Cafodd pawb lawer o hwyl a sbri, gyda rhai o'r plant yn cymryd rhan yn y cwis a phawb arall yn y gynulleidfa. Rhown wybod i chi pan fyddwn yn gwybod y dyddiad darlledu! (Bwrwch olwg ar albwm 'AHOI' yma).

On Friday, May 24th, a group of children travelled to Cardiff to film the TV programme 'Ahoi' which will be broadcast during September. Everyone had lots of fun, with some of the children taking part in the quiz and everyone else as audience members. Once we know the broadcast date we'll let you know! (Have a look at the 'AHOI' album here).





Dilynwch ni ar / *Follow us on*: @YGGGLlantrisant